

Adolygiad Dilynol o Theatrau Llawdriniaethau

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Awduron: Stephen Lisle a Carol Moseley

Dyddiad: Medi 2015

Cynnwys

- Cefndir
- Argymhellion blaenorol
- Nodau'r archwiliad
- Ein dull gweithredu
- Y prif gasgliadau
- Yr is-gasgliadau
- Y casgliadau manwl:
 - Rhan 1: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion blaenorol
 - Rhan 2: Y duedd o ran perfformiad theatrau
 - Rhan 3: Y rhwystrau rhag gwella
 - Rhan 4: Cynnydd o ran gweithredu'r rhestr wirio diogelwch a sesiynau briffio
- Argymhellion

Cefndir

- Mae gwasanaethau theatrau llawdriniaethau yn **rhan hanfodol o ofal cleifion**. Dylai theatrau fod yn gosteffeithiol, dylent gynorthwyo i gyrraedd targedau amseroedd aros a chyfrannu at ofal o ansawdd uchel i gleifion.
- Mae theatrau yn **ddibynnol iawn ar ffactorau allanol**. Os nad yw prosesau cyn/ar ôl llawdriniaeth yn brosesau o'r safon uchaf, bydd hyn yn cael effaith ar theatrau.
- Yn ôl **adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012**: 'Roedd y Bwrdd Iechyd yn llygad ei le yn canolbwyntio cryn ymdrech ar osod y sylfeini i wella gwasanaethau theatr. Fodd bynnag, bu'r effaith ar berfformiad yn siomedig hyd yn hyn, a dylai'r Bwrdd Iechyd roi blaenoriaeth i oresgyn rhai rhwystrau allweddol sy'n parhau.'
- Mae **Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad dilynol** o theatrau yn y Bwrdd Iechyd (ac ym mhob bwrdd iechyd arall, ac eithrio Powys) mewn ymateb i geisiadau gan bwyllgorau archwilio, pwyllgorau gwaith ac eraill a chydabyddiaeth nad yw perfformiad theatrau mewn sawl ardal ar draws Cymru o'r safon uchaf.

Argymhellion blaenorol

Roedd ein hargymhellion yn 2012 yn canolbwyntio ar:

- Godi ymwybyddiaeth o Rhaglen Waith a Bwrdd Theatrau
- Gwella cydweithio ar draws cyfarwyddiaethau
- Gwella cyfathrebu â staff
- Gwella asesiad cyn llawdriniaeth
- Gwella perfformiad a monitro perfformiad
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â salwch ymysg y staff a lefelau staffio
- Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â stoc a chyfarpar theatr

Nodau'r archwiliad

A yw'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar ein hargymhellion blaenorol ac yn darparu gwasanaethau theatr effeithlon o ansawdd uchel?
Mae'r adolygiad dilynol yn canolbwyntio ar dri maes:

Y cynnydd ers 2012

- Adolygiad lefel-uchel yn erbyn ein hargymhellion blaenorol
- Adolygiad lefel uchel o'r duedd mewn perfformiad theatrau

Rhwystrau

- Canolbwyntio ar y rhwystrau i wella, yn enwedig y rhai y gall y Bwrdd Iechyd eu rheoli ond sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau

Ansawdd a diogelwch

- Adolygu nifer fach o faterion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch
- Canolbwyntio ar restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd, sesiynau briffio a digwyddiadau

Ein dull gweithredu

- Hunanasesiad yn erbyn argymhellion blaenorol
- Adolygiadau o ddogfennau
- Trafodaethau ag arolygwyr/ymwelwyr allanol eraill â theatrau
- Cyfweiliadau â nifer fach o staff
- Dadansoddiad o ddata sydd ar gael yn rhwydd ar ddigwyddiadau ac effeithlonrwydd
- Arolwg staff: 181 o ymatebion (gan gynnwys 16 o lawfeddygon ac 14 o anesthetyddion)

Y prif gasgliadau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella rhai agweddau ar y llwybr llawfeddygol ond prin fu'r gwelliant mewn theatrau ac mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson.

Mae perfformiad theatrau'n parhau i fod yn broblem ond mae'r defnydd o wiriadau diogelwch mewn theatrau wedi gwella.

Yr is-gasgliadau

- Rhan 1:** Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.
- Rhan 2:** Mae perfformiad theatrau'n parhau i fod yn is na'r safon.
- Rhan 3:** Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.
- Rhan 4:** Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol.

Rhan 1: Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.

- a. Cymerwyd camau i atal problemau diogelwch yn ymwneud â throlïau offer theatr wedi'u difrodi neu wlyb rhag ailgodi:**
- Cynhaliwyd adolygiad eang o'r holl drolïau offer llawfeddygol
 - Defnyddiwyd basgedi newydd, padellau diferion, dyfeisiau amddiffyn corneli, bagiau cludo er mwyn amddiffyn trolïau offer rhag difrod
- b. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhai camau i wella cyfathrebu ymysg y staff:**
- Sefydlwyd safle SharePoint i wella cyfathrebu
 - Cyflwynwyd sesiynau archwilio penodedig
 - Bydd grwpiau defnyddwyr theatr yn ailgychwyn yn y dwyrain
 - Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan staff am waith tîm mewn theatrau
 - Fodd bynnag, dywedodd 62 y cant o'r staff yn ein harolwg nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael yr holl wybodaeth am faterion theatr a dywedodd 66 y cant nad oedd morâl yn uchel

Rhan 1: Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.

- C. Mae diddymu'r Rhaglen Waith Theatrau a'r Bwrdd Theatrau yn golygu nad oes fforwm i ysgogi gwelliannau mewn theatrau. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Llwybr Llawfeddygol wedi sicrhau rhai gwelliannau ehangach:**
- Cafodd y Rhaglen Waith Theatrau a'r Bwrdd Theatrau eu hailddyfeisio ddwywaith ers ein gwaith blaenorol. Yna cafodd y rhain eu diddymu er mwyn i Fwrdd y Llwybr Clinigol Llawfeddygol allu canolbwyntio ar welliannau ehangach i'r llwybr. Trafodir y gwelliannau hyn yn fanylach yn Rhan 3.
 - Mae newid mewn uwch bersonél allweddol wedi bod yn ffactor sy'n atal cynnydd.
 - Mae'r rheolwr sy'n goruchwylio theatrau wedi cymryd cyfrifoldebau ychwanegol gan weithredu fel Rheolwr Cyffredinol y Gwasanaethau Llawfeddygol. Mae hyn wedi creu cyfyngiadau o ran capasiti ac mae wedi bod yn rhwystr rhag gwella.
 - Nid yw'r cynllun gweithredu ynghylch ein hargymhellion yn cael ei ddefnyddio bellach er gwaethaf y ffaith nad yw wedi'i weithredu'n llawn.

Rhan 1: Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.

d. Mae camau ar y gweill i gryfhau prosesau monitro perfformiad ond nid yw'r Bwrdd lechyd yn ysgogi gwelliannau eto drwy ddefnyddio data o ansawdd da:

- Roedd systemau ar gyfer yr holl theatrau yn unedig ym mis Tachwedd 2014 ond cafwyd problemau o ran cael y system TOMS i gynhyrchu adroddiad a oedd yn cynnwys gwybodaeth dda
- Mae dangosfwrdd newydd ar gyfer theatrau yn ddatblygiad addawol ond mae angen rhagor o waith i brif ffrydio'r defnydd ohono wrth ysgogi gwelliannau
- Mae rhywfaint o ddata meincnodi wedi cael ei ryddhau drwy Albatros
- Ceir peth tystiolaeth o fonitro profiadau cleifion ond nid yw wedi'i brif ffrydio
- Ni ddarparodd y Bwrdd lechyd ddata ar berfformiad y dwyrain
- Dywedodd y staff wrthym am nifer o resymau amrywiol am aneffeithlonrwydd mewn theatrau ond mae diffyg data da yn golygu na all y Bwrdd lechyd chwalu mythau a mesur gwir faint problemau a'u hachosion sylfaenol

Rhan 1: Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.

- e. Mae camau wedi eu cymryd i wella asesiad cyn llawdriniaeth ond dywedwyd wrthym am faterion a oedd heb eu datrys:**
- Mae gwelliannau wedi eu hysgogi gan fwrdd prosiect asesiadau cyn llawdriniaeth gyda'r nod o foderneiddio a safoni arferion ar draws y Bwrdd Iechyd
 - Cynyddwyd nifer yr anaesthetyddion yn Abertawe a phenodwyd ymgynghorydd arweiniol
 - Crëwyd gofod ychwanegol yn Singleton
 - Datblygwyd system TG i gofnodi llwybr asesiad cyn llawdriniaeth y claf
 - Adeg ein harchwiliad, roedd gan y staff farn gymysg ynghylch effeithiolrwydd asesiadau cyn llawdriniaeth (dywedodd 27 y cant o'r staff bod proses sgrinio a rhag-asesu effeithiol ar waith ond dywedodd 44 y cant nad oedd hyn yn wir)
 - Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o welliannau a dywedwyd wrthym am gleifion sy'n cyrraedd i gael llawdriniaeth heb fod yr agweddau allweddol ar yr asesiad cyn llawdriniaeth wedi'u cwblhau

Rhan 1: Mae ein hargymhellion wedi cael eu gweithredu mewn ffordd anghyson ers i'r Rhaglen Theatrau ddod i ben. Cynigir cyfle pwysig yn sgil y cyllid newydd ar gyfer staff theatrau.

f. Canfuom faterion heb eu datrys yn ymnweud â staffio a salwch ond mae cyllid newydd ar gyfer staff theatrau yn cynnig cyfle mawr i wella:

- Roedd canfyddiadau nad oedd digon o adnoddau'n cael eu rhoi i theatrau er gwaethaf y ffaith bod staff yn cael eu defnyddio'n fwy hyblyg ar draws safleoedd.
- Cynyddu nifer y staff oedd yr ateb mwyaf cyffredin pan holwyd y staff am y blaenoriaethau o ran gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant.
- Cynyddodd cyfraddau salwch yn 2013-14 mewn tair o blith y pedair uned, ac yn 2014-15 roeddent wedi cyrraedd mwy na 10 y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot a Threforys.
- Mae cynnal lefelau hyfforddiant gorfodol yn anodd, yn arbennig yn Nhreforys.
- Ceir lefelau cydymffurfiaeth isel ag adolygiadau perfformiad (naw y cant yn Nhreforys, 34 y cant yn gyffredinol).
- Dywedwyd wrthym am ddiffyg argaeledd anaesthetyddion a bod hynny'n tarfu ar restrau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n galed i recriwtio anesthetyddion yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae wedi cael rhai anawsterau i lenwi swyddi.
- Cytunwyd ar £535,000 o gyllid ar gyfer 26 o staff theatr cyfwerth ag amser llawn. Bydd hyn yn golygu y bydd templed theatr 46-wythnos yn cael ei ariannu (ar hyn o bryd dim ond am 42 wythnos y caiff ei ariannu) ac mae'n gyfle pwysig i leddfu'r pwysau yn sgil y llwyth gwaith.

Rhan 2: Mae perfformiad theatrau'n parhau i fod yn is na'r safon

- Derbyniwyd yn gyffredinol yn ein cyfweiliadau bod effeithlonrwydd theatrau'n broblem. Ac mae Adolygiad Canol Blwyddyn y Gwasanaethau Llawfeddygol yn rhestru defnydd fel risg allweddol.
- Mae nifer y sesiynau sy'n dechrau'n hwyr ac yn gorffen yn gynnar yn ddwbl y gyfradd darged ac yn waeth na'r gyfradd adeg ein hadolygiad blaenorol:
 - Mae rhwng 35 y cant a 45 y cant o sesiynau'n dechrau'n hwyr [y targed yw 13.4 y cant, a'r perfformiad blaenorol oedd 23 y cant]
 - Mae rhwng 38 y cant a 45 y cant o sesiynau'n gorffen yn gynnar [y targed yw 20.6 y cant, a'r perfformiad blaenorol oedd 32 y cant]
- Caiff llawdriniaethau eu canslo'n aml a gall hyn amharu ar restrau theatrau:
 - Mae nifer y llawdriniaethau dewisol a gaiff eu canslo bob mis yn amrywio o 179 i 346 (dim ond y prif theatrau, Treforys/Singleton, 2013-14)
 - Nid oedd data ar gael ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru

Rhan 2: Mae perfformiad theatrau'n parhau i fod yn is na'r safon

- Caiff defnydd cyffredinol ei gyfrifo fel a ganlyn: 'cyfanswm yr amser a ddefnyddir' wedi'i rannu â 'cyfanswm yr amser a gynlluniwyd', wedi'i fynegi fel canran
- Mae'r defnydd cyffredinol wedi lleihau ychydig yn Nhreforys ac wedi cynyddu yn Singleton (nid oedd data ar gael ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Tywysoges Cymru)

Archwiliad
blaenorol

	Gorffennaf 2011 - Mehefin 2012	Gorffennaf 2013 - Mawrth 2014
Prif theatrau Treforys	81%	79%
Prif theatrau Singleton	69%	75%

Rhan 3: Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.

Mae amrywiaeth o broblemau gweithredol yn effeithio ar berfformiad theatrau cyn, yn ystod ac ar ôl llawdriniaeth.

Cyn llawdriniaeth	Yn ystod llawdriniaeth	Ar ôl llawdriniaeth
Proses wael o ran cynllunio rhestrau	Defnydd gwael o restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd	Oedi gydag adferiad
Cynlluniau staffio gwael	Defnydd gwael o sesiynau briffio ar ddiogelwch	Oedi gyda gofal critigol
Problemau o ran cyfateb adnoddau â'r galw	Oedi gyda gwasanaeth porthora	Problemau gyda llif
Prinder gwelyau yn atal derbyniadau > canslo llawdriniaethau	Oedi ar y wardiau (problemau gydag asesiadau cyn llawdriniaeth, problemau staffio ac ati)	
Cleifion yn methu apwyntiadau	Problemau staffio theatrau	
Cyfraddau gwael ar gyfer Derbyn ar Ddiwrnod Llawdriniaeth	Oedi gyda'r Uned Sterileiddio a Dadheintio	
	Problemau gyda chyfarpar	

Rhan 3: Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.

Mae llif cleifion a galwadau brys yn ffactorau allanol sy'n aml yn effeithio ar theatrau:

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael trafferthion i sicrhau cydbwysedd rhwng galwadau gofal wedi'i drefnu a heb ei drefnu sy'n cystadlu â'i gilydd. Bellach mae sesiynau theatr brys ychwanegol wedi'u eu hariannu ar benwythnosau.
- Adeg yr archwiliad, amharwyd yn ddyddiol ar y rhestr oherwydd nad oedd gwelyau ar gael. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno ardal yn Nhreforys ar gyfer 18 o gleifion achosion dydd cyn llawdriniaeth. Mae triniaeth ar gyfer y cleifion hyn yn aml yn cael ei chanslo oherwydd nad oedd gwely ar gael.
- Mewn rhai arbenigeddau ni chaiff y targedau amseroedd aros eu cyrraedd, a hynny'n gyson.
- Mae perfformiad o ran derbyn cleifion ar ddiwrnod llawdriniaeth yn amrywio'n sylweddol yn ôl arbenigedd a gwelir y gyfradd isaf yn Llawfeddygaeth y Geg, y Genau a'r Wyneb ac Offthalmoleg. Ceir barn gymysg gan y staff am effeithiolrwydd prosesau derbyn cleifion ar ddiwrnod y llawdriniaeth.
- Mae pwysau ar welyau wedi ysgogi gwelliannau o ran cyrraedd targed achosion dydd Cymdeithas Gofal Dydd Prydain ond mae lle i wella'n sylweddol mewn rhai arbenigeddau.
- Mae nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal yn parhau i fod yn uwch na'r targed.

Rhan 3: Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.

Awgrymodd yr arolwg staff y dylai cynyddu lefelau staffio a gwelyau sydd ar gael fod yn flaenoriaethau ar gyfer gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant theatrau.

Categori	Nifer y cyfeiriadau yn yr arolwg staff
Lefelau staffio - nyrsio yn bennaf	54
Gwelyau sydd ar gael, rheoli gwelyau a llif cleifion	42
Cynllunio rhestrau ac ôl-lenwi	33
Asesiad cyn llawdriniaeth a pharatoi cleifion	25
Porthora	21
Cyfarpar	21
Llawdriniaeth ddydd a llawdriniaeth arhosiad byr	18
Morâl y staff	15

Rhan 3: Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.

Mae'r Bwrdd Llwybr Llawfeddygol yn canolbwyntio ar lawer o'r rhwystrau allanol ac wedi gwneud peth cynnydd:

- Dewisodd y Bwrdd Iechyd roi'r gorau i ganolbwyntio'n benodol ar y defnydd o theatrau gan ganolbwyntio ar wella'r llwybr llawfeddygol yn lle hynny
- Mae'r Bwrdd Llwybr Llawfeddygol wedi canolbwyntio ar wella asesiadau cyn llawdriniaeth, materion staffio a mentrau sy'n ymwneud ag arbenigeddau penodol, megis:
 - Uno gwasanaethau ENT pediatrig i oedolion a fydd yn arwain at greu gwelyau camu i lawr, gan leihau'r defnydd o gapasiti gofal critigol prin
 - Buddsoddi mewn cymorth ar ffurf therapïau i leihau hyd arhosiad cleifion llawfeddygaeth fasgwlaidd
 - Treialu'r defnydd o gynorthwywyr llwybr llawfeddygol ym maes orthopedeg i wella llif cleifion drwy borthora, gwirio dogfennau cydsyniad, a gweithredu fel cyswllt rhwng y ward a'r llawfeddyg
 - Trosglwyddo'r gwasanaeth fasectomi i ofal sylfaenol
 - Cwblhau cytundeb lleol gyda staff theatr a darlificio i wella trefniadau ar alwad mewn gwasanaethau cardiaidd

Rhan 3: Mae llwybr gwaith y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y rhwystrau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol theatrau. Mae angen ategu hyn gyda gwaith penodol mewn theatrau.

Mae rhwystrau strategol yn parhau o ran gwella theatrau, gan gynnwys diffyg rhaglen strwythuredig mewn theatrau:

- Er bod yna Fwrdd Llwybr Llawfeddygol, nid oes rhaglen strwythuredig ar gyfer gwella theatrau.
- Penodiad dros dro yw'r Cyfarwyddwr Clinigol newydd ar gyfer Gwasanaethau Llawfeddygol (sy'n cwmpasu theatrau) o ganlyniad i broses barhaus o ailstrwythuro rheolwyr, felly mae risg y bydd rhagor o newidiadau ac amhariadau mewn perthynas ag arweinyddiaeth theatrau.
- Mae angen i reolwyr a'r tîm gweithredol ganolbwyntio mwy ar wella theatrau.
- Nid oes modd gwella theatrau heb gydberchnogaeth o'r problemau rhwng theatrau, adrannau anaesteteg a llawfeddygon. Mae angen i staff gael eu grymuso er mwyn nodi problemau penodol yn ymwneud â staff a mynd i'r afael â hwy, hyd yn oed os ydynt yn tarddu o'r tu allan i'w maes cyfrifoldeb uniongyrchol.
- Mae diffyg mesur a rheoli perfformiad yn rhwystr mawr.



Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Amlygodd yr adran Archwilio Mewnol fethiannau yn y defnydd o restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd.

Mewn adroddiad Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, rhoddwyd 'dim sicrwydd' cyffredinol a dywedodd:

- Nad oedd argymhellion o astudiaeth wella 2012 wedi eu gweithredu.
- Nad oedd unrhyw bolisiâu/gweithdrefnau sy'n rhoi arweiniad ar ddefnyddio'r rhestr wirio. Nid oedd cyfrifoldebau, hyfforddiant a monitro yn cael eu dogfennu'n ffurfiol.
- Nad oedd y rhestr wirio yn cael ei defnyddio yn ôl y bwriad (yn cael ei chwblhau'n rhannol ac yn ôl-weithredol).
- Bod rhai rhestrau gwirio yn anghyflawn ond wedi'u marcio fel rhai cyflawn ar system y theatr.
- Bod pedwar achos o swabiau wedi'u gadael yn y corff er gwaethaf y ffaith bod rhestr wirio wedi'i chwblhau.



Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Gwelsom dystiolaeth o rai camau cadarnhaol i wella'r defnydd o'r rhestr wirio:


- Anfonodd y Cyfarwyddwr Meddygol lythyr at y staff i egluro eu cyfrifoldebau personol dros gwblhau'r rhestr wirio ym mhob achos
- Ysgrifennwyd gweithdrefn safonol ar gyfer y rhestr wirio
- Mae theatrau wedi cynnal archwiliadau ar hap o gydymffurfiaeth rhestrau gwirio ac mae o leiaf un arbenigedd wedi cynnal archwiliad cudd i weld a yw'r rhestr wirio yn cael ei defnyddio'n gywir
- Mae'r system data theatrau ac E-Datix yn cael eu ffurfweddu er mwyn sicrhau bod ganddynt swyddogaeth benodol sy'n cyd-fynd â chamau'r rhestr wirio
- Mae modd gwneud rhagor o welliannau drwy argyhoeddi mwy o staff o fanteision y rhestr wirio a lledaenu arferion da



Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Awgryma canlyniadau'r arolwg staff fod rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio'n gyson erbyn hyn.

Mae staff yn dilyn rhestrau gwirio llawdriniaethol cyn pob achos theatr.






Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Nid yw sesiynau briffio tîm wedi'u prif ffrydio eto ym mhob theatr:

- Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Reolau Newydd, gan sicrhau bod sesiynau briffio cyn mynd i'r afael â rhestrau yn orfodol o fis Ionawr 2015 ymlaen
- Mae sesiynau briffio yn bwrw gwreiddiau yn y dwyrain; cânt eu defnyddio i ryw raddau yn Singleton ond ni chânt eu defnyddio yn Nhreforys
- Ceir peth tystiolaeth o ymgysylltiad clinigol cymysg â'r sesiynau briffio

Caiff personél theatr eu briffio cyn unrhyw lawdriniaeth bob amser.






Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Nid yw sesiynau briffio tîm wedi'u prif ffrydio eto ym mhob theatr:

- Nid yw sesiynau ôl-drafod ar ôl ymdrin â rhestr yn tueddu i ddigwydd (yn unol â'r rhan fwyaf o Gymru)

Mae sesiynau dadfriffio yn dilyn sifft neu restr yn gyffredin yn y theatrau llawdriniaethau hyn.



Dyfyndiadau gan y staff am restr wirio Sefydliad Iechyd y Byd a sesiynau briffio

Mae cydymffurfiaeth wedi cynyddu'n sylweddol

Byddai mwy o sesiynau briffio cyn ymdrin â rhestrau yn cael effaith gadarnhaol ar yr adran gyfan.

Angen ei addasu i anghenion yr ysbyty hwn

Annog staff meddygol i fod yn fwy parod i gymryd rhan mewn sesiynau briffio fel nad staff y theatr sy'n gorfod mynd i chwilio amdanynt ar ddechrau'r rhestr

Mae problem o ran cael y staff i fod yn dawel wrth gwblhau rhestr wirio'r WHO

Rhoddir tic ym mhob blwch beth bynnag fo'r atebion (ers cyflwyno rhestr wirio ar TOMS)

Neilltuo amser ar ei gyfer ar y rhestrau

Ar ôl 18 mis yn y theatr, nid wyf wedi gweld dim sesiwn friffio/ôl-drafodaeth ar restr wirio WHO


Dangos ei fod yn werth ei wneud

Gwastraff amser llwyr

Er bod effeithlonrwydd yn bwysig, nid dyma'r unig flaenoriaeth. Mae ansawdd y gofal yr un mor bwysig, os nad yn bwysigach

Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Awgryma data am ddigwyddiadau gan theatrau ddiwylliant adrodd sefydlog yn y Bwrdd Iechyd ers 2011.







Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Mae'r arolwg yn dangos barn gweddol gadarnhaol am adrodd ar ddigwyddiadau.

Anogir staff i gofnodi gwallau yn y theatrau llawdriniaethau hyn.



Defnyddir gwybodaeth o adroddiadau ar ddigwyddiadau i wneud gofal cleifion yn fwy diogel yn y theatrau llawdriniaethau yn yr ysbyty hwn.






Rhan 4: Ysgogodd y methiannau yn y defnydd o'r rhestr wirio lawfeddygol welliannau mewn ymyriadau diogelwch allweddol

Mae'r Bwrdd Iechyd ar gamau cynnar y broses o gryfhau diogelwch llawfeddygol ymhellach drwy brynu meddalwedd Rheoli Gweithdrefnau Llawfeddygol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu canllawiau electronig, camwrth-gam i weithdrefnau llawfeddygol, fel ffordd o hyfforddi a safoni.

Byddwn yn teimlo'n ddiogel yn cael fy nhrin fel claf yma.



Argymhellion

Rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd Iechyd:

1. Ailgyflwyno rhaglen strwythuredig ar gyfer gwella theatrau, o bosibl fel ffrwd waith o fewn y Bwrdd Llwybr Llawfeddygol
2. Cyflwyno mecanwaith i sicrhau bod effeithlonrwydd theatrau, cynhyrchiant a diogelwch yn cael eu goruchwyllo'n fwy rheolaidd gan y weithrediaeth
3. Adolygu rôl y Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer theatrau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei rymuso i ddatrys problemau lle bynnag y byddant yn codi yn y llwybr llawfeddygol
4. Datblygu dull o reoli perfformiad mewn theatrau sy'n sicrhau bod data o ansawdd da yn cael eu defnyddio'n eang i ysgogi gwelliannau
5. Manteisio ar arbenigedd tîm Cyfathrebu y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo i'r staff fanteision defnyddio rhestr wirio' Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a sesiynau briffio
6. Gwneud rhagor o waith i ddeall a rheoli cyfraddau absenoldeb salwch uchel mewn theatrau